Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu

Meithrinfa Ddydd Abacus

42 Heol Sgeti
Uplands
Abertawe
SA2 0LJ

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/11/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

Meithrinfa Ddydd Abacus

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Abacus Sketty Road Limited
Lleoedd cofrestredig	43
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Chwefror 2020
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r lleoliad yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Llesiant	**Da**
Gofal a Datblygiad	**Da**
Yr Amgylchedd	**Da**
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	**Da**

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus, ac maent yn amlwg yn mwynhau eu hamser ym Meithrinfa Ddydd Abacus. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn ac yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu a datblygu o'r profiadau a gynigir iddynt ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Maent yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac yn dangos ymddygiad da. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r plant yn ogystal â chyfleoedd da i blant ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae mesurau effeithiol ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae gan y feithrinfa ystod eang o gyfarpar o ansawdd da sy'n briodol o ran oedran sy'n diwallu anghenion y plant ac yn rhoi amrywiaeth a dewis iddynt.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y feithrinfa yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm. Maent yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw pob polisi wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin partneriaethau gwaith da â'r rhieni.

Llesiant Da

Mae gan y plant lawer o ddewisiadau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser. Maent yn dewis pa adnoddau y maent am chwarae â nhw ac yn penderfynu pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn hyderus iawn wrth gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau, am eu bod yn gwybod y bydd yn staff yn gwrando arnynt ac yn dangos diddordeb. Caiff eu syniadau eu casglu'n gyson a'u defnyddio fel rhan o'r broses gynllunio, sy'n sicrhau bod eu diddordebau a'u hanghenion bob amser yn cael eu hystyried.

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn. Er enghraifft, cafodd baban a oedd wedi dechrau dod i'r feithrinfa'n ddiweddar ei gysuro gan aelod o'r staff nes iddo ymuno â gweithgaredd. Mae'r plant yn adnabod y staff yn dda iawn ac wedi meithrin cydberthnasau cadarn a chariadus â nhw. Mae'r cydberthnasau cryf hyn yn helpu'r plant i wneud dewisiadau mewn ffordd hyderus ac i gymryd rhan gadarnhaol yn eu chwarae. Mynegodd un plentyn ei gariad at y feithrinfa a'r staff, a dywedodd un arall wrthym cymaint roedd yn mwynhau dod i'r lleoliad.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn amlwg yn mwynhau bod yng nghwmni'r plant eraill. Er enghraifft, pan gyrhaeddodd y plant ysgol amser cinio, cawsant eu croesawu drwy floeddio â llawenydd, rhoi mwythau iddynt a gwenu arnynt. Mae'r plant yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd. Gwelsom grŵp o blant a oedd wedi ymgolli yn eu chwarae, gan gydweithio yn y gornel gartref a chwarae ag adnoddau bywyd go iawn mewn ffordd ofalus a chyfrifol. Mae'r plant yn dod yn hunanymwybodol ac yn dysgu i fod yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, cododd un plentyn ar ei eistedd er mwyn i blentyn arall orwedd ar y soffa, gan ei fod wedi dweud wrth ei ffrindiau ei fod angen gorffwys. Cânt eu hannog i greu cysylltiadau iach, boddhaus ac ystyrlon drwy wneud ffrindiau a bod yn garedig.

Mae'r plant wrth eu bodd yn chwarae ac yn ymgolli'n llwyr wrth wneud hynny. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i barhau i chwarae am gyfnodau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, gwnaeth y babanod fwynhau eu gweithgaredd chwarae dŵr, gan barablu a chwerthin wrth iddynt archwilio'r gwrthrychau naturiol yn y dŵr a sblasio â'u dwylo. Roedd y plant bach wedi ymgysylltu'n llawn â'u chwarae blêr a gwnaeth y plant hŷn fwynhau'r cyfleoedd i chwarae ag adnoddau bywyd go iawn.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu eu hannibyniaeth. Cynigir amrywiaeth o brofiadau sy'n addas ar gyfer eu hoedran iddynt, er mwyn ymarfer eu sgiliau hunangymorth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd ac amser bwyd, mae'r plant yn gweini bwyd i'w hunain yn effeithlon. Caiff y plant iau eu hannog i fwydo eu hunain ond cânt gymorth bob

amser lle y bo angen. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad sylweddol o gyflawniad a llwyddiant i'r plant o ganlyniad uniongyrchol i'w gweithredoedd eu hunain. Mae'r plant yn dewis gweithgareddau'n hyderus, sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau meddwl yn annibynnol a gwneud penderfyniadau eu hunain.

Gofal a Datblygiad Da

Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn hyderus pan ofynnir iddynt am senarios damcaniaethol. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn effeithiol ac yn cofnodi eu horiau presenoldeb bob dydd. Mae'r staff yn dilyn arferion hylendid da mewn perthynas â newid cewynnau a hylendid bwyd. Maent yn gweithio'n dda gyda'r cogydd, sy'n darparu prydau a byrbrydau iach a maethlon, gan reoli alergeddau a dewisiadau bwyd yn ofalus ac yn gadarn. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau a threfniadau rhoi meddyginiaeth mewn ffordd gyson, gan sicrhau bod y rhieni yn cael gwybod. Mae gan hanner y staff gymwysterau cymorth cyntaf addas a chyfredol. Yn ystod yr arolygiad, cafodd y gweithdrefnau ar gyfer storio a chynnwys y pecynnau cymorth cyntaf eu hadolygu.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd pwyllog, caredig a gofalgar. Mae polisi rheoli ymddygiad addas ar waith, y mae'r staff yn ei ddilyn. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd i'r plant ganolbwyntio ar eu teimladau eu hunain ac yn defnyddio strategaethau i leihau gorbryder drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ioga, a gynigir bob pythefnos gan athro arbenigol. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'r plant ac yn cynnig anogaeth a chanmoliaeth drwy gydol y dydd. Er enghraifft, gwelsom y plant yn cael eu canmol am helpu eraill ac am ofalu am yr amgylchedd. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn ystyrlon ac maent yn dangos cynhesrwydd gwirioneddol tuag at ei gilydd. Mae'r staff yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl ragorol.

Mae'r staff yn llwyddo i ddiwallu anghenion y plant; maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda drwy ddulliau rhyngweithio cadarnhaol a thrwy'r gweithgareddau y maent yn eu darparu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau unigol. Mae'r staff yn cofnodi cynnydd y plant ac yn nodi eu camau dysgu nesaf. Maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am gynnydd eu plant ar lafar ac mewn cyfarfodydd rhieni lle mae'r gweithwyr allweddol yn darparu cofnodion datblygiadol.

Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Maent yn trefnu prosesau glanhau rheolaidd ac mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, sy'n cael eu cofnodi a'u dadansoddi. Maent yn sicrhau y caiff y cyfarpar diogelwch tân ei brofi'n unol â'r amserlenni gofynnol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad wedi cael eu hadolygu eto ers newid lleoliad y gwahanol ystodau oedran yn y lleoliad. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau asesiad risg tân diweddar ac nid yw'r staff wedi cael yr hyfforddiant tân diweddaraf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd ar eu lloriau dynodedig. Maent yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae addas i'r holl ystodau oedran y gofelir amdanynt. Mae llawer o'r ystafelloedd wedi'u trefnu i alluogi'r plant i fanteisio ar amrywiaeth o ardaloedd, gan gynnwys rhai creadigol, dychmygol, cymdeithasol a synhwyraidd. Maent hefyd yn darparu ardaloedd sy'n datblygu sgiliau penodol. Er enghraifft, ceir ystafell chwarae meddal a ddatblygwyd i alluogi'r plant i ymarfer eu sgiliau echddygol bras drwy ddringo a chydbwyso. Mae ystafelloedd chwarae blêr ar gael i'r plant hŷn, sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer chwarae creadigol ac amser prydau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do o ansawdd da sy'n addas o ran oedran ar gael i'r plant. Mae'r rhain yn helpu i ysgogi diddordebau a dychymyg y plant ac mae'r staff yn sicrhau bod llawer o ddeunyddiau naturiol a darnau rhydd ar gael i'r plant eu harchwilio. Caiff annibyniaeth y plant ei hybu gan fod yr adnoddau wedi'u storio ar lefelau isel a'u bod yn hawdd cael gafael arnynt. Ceir ardal chwarae awyr agored, y gellir mynd ati drwy ddwy allanfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ystyried risgiau diogelwch y grisiau sy'n arwain at yr ardal awyr agored ac wedi datblygu arferion a mesurau diogelwch i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae arddangosfeydd dwyieithog yn dathlu diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid oedd llawer o adnoddau Cymraeg ar gael i'r plant ar ddiwrnod yr arolygiad. Caiff ymdeimlad o berthyn y plant ei hybu drwy arddangos ffotograffau ohonynt yn archwilio'r ardal awyr agored ac yn defnyddio'r ardaloedd gwyrdd o'u cwmpas.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gref a gaiff ei rhannu â'u staff. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethant ddiweddaru eu datganiad o ddiben, sydd bellach yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt ystod eang o bolisïau clir a gaiff eu hadolygu bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r polisi diogelu yn unol â'r gweithrediadau presennol. Yn ogystal, nid yw'r cynllun gweithredol yn nodi manylion dirprwy arweinydd ac nid yw'r rolau a'r cyfrifoldebau yn y cynlluniau wrth gefn wedi cael eu hadolygu eto. Nid yw'r polisi anghenion dysgu ychwanegol wedi cael ei ddiweddaru ac nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant o dan y cod ymarfer presennol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg drwy fynd ati i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae'r broses hunanwerthuso yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ceisio safbwyntiau ac awgrymiadau'r plant, rhieni/gofalwyr a'r staff. Maent yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal sy'n ystyried y gwasanaeth a ddarperir ac yn nodi'r meysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod ac yn gwerthuso blaenoriaethau priodol, gan nodi targedau ar gyfer y lleoliad yn gywir yn y cynllun gwella. Un enghraifft o'r blaenoriaethau hyn yw ei gwneud hi'n haws mynd at yr ardal awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiadau yn cadarnhau bod manylion adnabod ffotograffig ar gael ar gyfer y staff. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog y staff i fynychu amrywiaeth o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant mewnol. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau da yn rheolaidd, a cheir ffocws ar gefnogi llesiant y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cymarebau staffio yn gywir ac felly bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cyfathrebu gyda'r rhieni yn werthfawr er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn defnyddio ap i ddogfennu cyflawniadau'r plant ac i rannu gwybodaeth â'r rhieni megis lluniau ac arsylwadau, yn ogystal â gwybodaeth am eu gofal personol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio arbenigedd sefydliadau ambarél ac asiantaethau allanol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol	
Safon	Argymhelliad/argymhellion
Safon 4 - Diwallu anghenion unigol	Diwygio'r polisi anghenion dysgu ychwanegol yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant perthnasol er mwyn nodi anghenion dysgu ychwanegol.
Safon 24 – Diogelwch	Sicrhau bod asesiad risg tân yn cael ei gwblhau ar gyfer y lleoliad, sy'n cynnwys hyfforddiant staff ac adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad yn ddiogel.
Safon 14 - Trefniadaeth	Adolygu'r cynllun gweithredol ac adolygu'r strwythur sefydliadol gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau.
Safon 20 – Amddiffyn plant	Adolygu'r polisi diogelu a sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu nodi'n glir yn unol â'r cynllun gweithredol.

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 10/01/2024